Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mehefin 2018

Annwyl Lynne

Deiseb P-05-751 Cydnabod achosion o ddieithrio plentyn oddi wrth riant

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn trafod y ddeiseb uchod ers mis Mai 2017. Mae'r drafodaeth honno wedi cynnwys sesiynau tystiolaeth gyda'r deisebydd, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, a CAFCASS Cymru, ac amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig.

Y tro diwethaf inni ystyried y ddeiseb oedd yn ein cyfarfod ar 5 Mehefin, a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn a yw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ystyried hyn, neu faterion cysylltiedig, yn ystod y Cynulliad hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros yr e-bost at y tîm clercio yn ***SeneddDeisebau@cynulliad.cymru***.

Yn gywir

David J Rowlands AC/AM
Cadeirydd/Chair